<u>Straeon Mudo Caerdydd</u>

# Mary



*Llun - diolch i Mary Sullivan. Hawlfraint Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen*

(Yn siarad am le roedd hi'n tyfu i fyny yng Nghaerdydd) "Roedd yn hawdd; teimlai'n ddiogel ac roedd rhywun bob amser yn edrych allan amdanom. Fel y dywedais yn gynharach, roedd bob amser ffrindiau a theulu, doedd y drysau byth wedi'u cloi. Allwch chi ddychmygu hynny? Gadael eich drws ffrynt ar agor, ddim ar agor, ond heb ei gloi. Os byddai angen rhywbeth arnoch gallech chi fynd ar draws y ffordd neu i lawr y lôn. Roedd y cymdogion yn gyfeillgar iawn, llawer ohonyn nhw'n deulu ond roedd pawb arall dal yn ffrindiau – roedd yno gymuned dda. Roeddwn i'n sôn yn gynharach i'r grwpiau eraill nad oedd gennym deledu ond dwi'n cofio'r teledu cyntaf a oedd ar ein stryd, dyn o'r enw Terry Walsh oedd yn berchen arno, ac roedden ni'n ciwio tu allan i'r tŷ – llinell hir ohonom – a byddai'n gadael hyn-a-hyn i mewn ar y tro, ac ar ôl i chi wylio am bach byddai'r criw nesaf yn dod i mewn. Roedd hi'n hwyl."

(Pam ddaeth eich teulu i Gaerdydd yn gyntaf?) "Cwestiwn da. Roedd newyn yno. Y newyn tatws – dyna pam ddaethon nhw draw. Daeth pobl o Iwerddon i orffen adeiladu dociau Caerdydd ac roedden nhw'n byw yn Nhrecelyn – roeddwn i'n arfer byw yno ac roedd Mam a Nain hefyd, felly roedden ni'n byw yn y tŷ am flynyddoedd maith."

Gweithiai taid Mary yn y dociau, yn dadlwytho sachau tatws o'r llongau. Arferai gymryd rhan yn nathliadau Corpus Christi yng Nghaerdydd.

(Sut le oedd Caerdydd pan ddaethoch chi yma?) "Ces i fy ngeni yng Nghaerdydd ond Nain oedd y gyntaf i ddod yma. Roedd hi'n wahanol iawn. Daeth y Gwyddelod draw i weithio yn nociau Caerdydd, gan fod y bobl newydd ar streic. Pan gyrhaeddon nhw, doedd y streicwyr ddim yn hapus am y peth felly chawson ni fawr o groeso, a chofiwch fod y bobl hyn yn dod drosodd ym 1840 yn bobl fudr iawn, iawn, ac roedd gan rai afiechydon. Doedden nhw ddim y bobl orau. Roedd hi ychydig fel heddiw pan fyddwch chi'n gweld pobl yn mudo, mewnfudwyr, a phobl yn dweud 'o na 'dyn ni ddim eisiau nhw, mae gormod yma'. Roedd hi felly 150 mlynedd yn ôl hefyd."